Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Ebrill 24, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Ar ran yr holl staff ysgol, mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

**Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Datganiad Polisi Parhad Dysgu**

Ar ddydd Llun, Ebrill 20, 2020, cyflwynodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru Kirsty Williams rhaglen "Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: Datganiad Polisi Parhad Dysgu" sy'n ceisio cefnogi dysgwyr, arweinwyr, llywodraethwyr, ymarferwyr, rhieni a gofalwyr i ddelio ag effaith y coronafeirws. Mae datganiad y Gweinidog yn nodi'n glir y bydd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn parhau fel a ganlyn:

- diogelwch ac iechyd corfforol a meddyliol yr holl ddysgwyr a'r gweithlu addysg yng Nghymru,
- gallu'r dysgwyr i gyd i ddal ati i ddysgu.
- symud y dysgwyr yn ôl i'r ysgol ac ymlaen i gam nesaf eu dysgu pan mae'n ddiogel gwneud hynny.

Am wybodaeth bellach parthed cynlluniau a chamau gweithredu'r Llywodraeth i sicrhau bod hyn yn digwydd, gweler y ddogfennaeth isod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20.4.2020.

https://llyw.cymru/cadwn-ddiogel-dal-ati-i-ddysgu-parhad-dysgu

Fel ysgol, rydym yn gweithio ar y cyd gyda'r Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn parhau i ddysgu. Rydym hefyd yn datblygu ein darpariaeth ysgol o ran dysgu o bell.

**Gosod gwaith/tasgau i ddisgyblion**

Parheir gyda'r trefniant o osod gwaith i ddisgyblion drwy "Show My Homework". Rydym wedi llunio holiadur er mwyn casglu barn rhieni a gwarcheidwaid ar y ddarpariaeth bresennol addysgu ar-lein. Gwerthfawrogwn pe bai modd i chi gwblhau'r holiadur ar-lein erbyn dydd Mawrth, 28.4.20 drwy ddilyn y ddolen isod.

https://www.surveymonkey.co.uk/r/FHQ7J8S

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

**Cefnogaeth i ddisgyblion a rhieni**

Carwn eich atgoffa, pe gyfyd unrhyw bryderon gennych chi neu'ch plentyn, anogaf i chi a hwy gysylltu gyda'r ysgol drwy e-bost ymholiadau ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk neu drwy e-byst yr arweinwyr cynnydd a lles sydd wedi eu nodi isod. Cofiwch ein bod yma i'ch cynorthwyo a'ch cefnogi chi a'ch teuluoedd yn ystod yr wythnosau nesaf.

| | |
|---|---|
| Ebost Cymorth Lles i'r Disgyblion / *Emails for pupils needing emotional support:* | Bl/Yr 7 Gofal7@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 8 Gofal8@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 9 Gofal9@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 10 &11 Gofal10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 12 & 13 Gofal12a13@penweddig.cerdigion.sch.uk |
| Cyswllt Arweinyddion Cynnydd a Lles i rieni /<br>Contact details for Progress Leaders for parents | Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 12 & 13 Progress Leader bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 10 & 11 Progress Leader bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 9 Progress Leader bl9@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 8 Progress Leader bl8@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 6 & 7 Progress Leader bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk |

Gofalwch am eich gilydd a chadwch yn ddiogel.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

April 24, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils,

On behalf of all school staff, I hope that you and your families are keeping healthy and safe during these exceptional circumstances.

This week, I would like to draw your attention to the following:

**Stay Safe. Stay Learning: continuity of learning policy statement**

On Monday, 20.4.20, Welsh Government Education Minister Kirsty Williams presented the "Stay Safe. Stay Learning: continuity of learning policy statement" which aims to support learners, leaders, governors, practitioners, parents and carers in dealing with the impact of coronavirus.

The Minister's statement makes it clear that the Welsh Government's priorities will continue to be:

- the safety and physical and mental health of all learners and the education workforce in Wales.
- the ability of all learners to keep learning,
- learners' transition back into school and onto the next phase of their learning when it is safe to do so.

For further information regarding the Government's plans and actions to make this happen, please see below documentation published by the Welsh Government on 20.4.2020.

https://gov.wales/stay-safe-stay-learning

As a school, we are working together with the Local Authority to ensure that all our pupils continue to learn. We are also developing our school provision regarding teaching on-line.

**Work/Task setting for pupils**

Arrangements continue regarding setting work/tasks for pupils via "Show my Homework". We have composed an on-line questionnaire to collect parent and guardian views on the current teaching on-line provision. We would greatly appreciate if you could complete the questionnaire on-line at the link below by Tuesday, 28.4.20.

https://www.surveymonkey.co.uk/r/FHQ7J8S

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
**T** (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

**Support for parents and pupils**

I would like to remind you that if you or your child have any concerns, I encourage you to contact the school via the ymholiadau e-mail ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk or via the Year Progress Leader's e-mail addresses that are listed below. Remember that we are here to help and support you during the forthcoming weeks.

| | |
|---|---|
| Ebost Cymorth Lles i'r Disgyblion / *Emails for pupils needing emotional support:* | Bl/Yr 7 Gofal7@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 8 Gofal8@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 9 Gofal9@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 10 &11 Gofal10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Bl/Yr 12 & 13 Gofal12a13@penweddig.cerdigion.sch.uk |
| Cyswllt Arweinyddion Cynnydd a Lles i rieni / Contact details for Progress Leaders for parents | Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 12 & 13 Progress Leader bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 10 & 11 Progress Leader bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 9 Progress Leader bl9@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 8 Progress Leader bl8@penweddig.ceredigion.sch.uk<br>Arweinydd Cynnydd Bl/Yr 6 & 7 Progress Leader bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk |

Every Friday, you will receive correspondence from me to inform you of the latest news and developments. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher